CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
7 Ebrill 2021, Trwy Zoom 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng. D.I. Roberts (Cadeirydd), N Jones, E Williams, D Gwyn, A Mummery, M Jones (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
YMDDIHEURIADAU: S. Hughes, Ll. Roberts, R Williams (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cynghorydd D.I. Roberts.
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 03:03:2021. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng N. Jones yn cynnig a Cyng D. Gwyn yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Twll ger y lôn rhwng Eglwys Penmynydd a'r Groeslon** – Wedi derbyn sylw gan y Cyngor Sir. Hefyd Cyng. A. Mummey am adrodd I'r Cyngor Sir am ddifrod i wynebedd y bont dros yr A55 yn Star.
4.2	**Gor Dyfiant ar Lôn Garnedd Ddu -** Wedi'i weithredu gan y Cyngor Sir.
4.3	**Elusendai Penmynydd** - 4 aelod bellach wedi'u enwebu i'r Pwyllgor Rheoli. Yn hanesyddol mae'r tai wedi bod ar gyfer pobl 50 oed sydd mewn tlodi. Y Cyngor yn teimlo fod yr anneddau yn fwy addas ar gyfer pobl ieuengach a bod maint y tai angen bod yn fwy. Nodir mai Tai Lewis Rogers yw enw'r rhsdai ac nid elusendai. Angen parhau gyda'r drafodaeth.
4.4	**Maes Chwarae Star -** Clerc i edrych allan am grantiau'n agor ar gyfer y maes chwarae. Ymddiriedolaeth Cyngor Sir yn agor yn fuan. Nodwyd bod Llanbedrgoch wedi derbyn grant i ddatblygu maes chwarae. A. Mummery a R.M. Jones I wneud ymholiadau.

	Scottish Power wedi gofyn caniatad i docio coeden yn y maes chwarae. Cyng. N. Jones wedi caniatau ar ran y Cyngor.
4.5	**Sbwriel a Biniau -** Y Clerc am weithredu i archebu bagiau baw ci i'w gosod yn agos i leoliadau biniau sbwriel.
4.6	**Meinciau angen eu paentio** - Y Cadeirydd a Cyng. D. Gwyn i weithredu.
5.0	**GOHEBIAETH**
5.1	Un Llais Cymru - gwahoddiad I ymaelodi am y flwyddyn 2021 - 2022am gost o £81.00. Cytunwyd I ymaelodi a thalu'r ffi.
6	**MATERION ARIANNOL**
6.1	**Rhent y Ganolfan - £93.80**
6.2	**Costau Archwiliad Ariannol (BDO). -** angen gwirio'r swm sy'n ddyledus.
7	**MATERION ERAILL**
7.1	**Cynnal Diwrnod Hwyl yn y maes chwarae -** y Clerc i wirio os byddai yswiriant y Cyngor yn ddigonol.
8	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
8.1	Llwybrau Cyhoeddus
8.2	Gor yrru
	Llofnod Cadeirydd 05.05.21